# 2021 Maniffesto Meddygaeth

abpi

Bringing medicines to *life*
Dod a meddyginiaeth i *fywyd*

Cymru | Wales

Mae Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI) yn bodoli i wneud y DU y lle gorau yn y byd i ymchwilio, datblygu a defnyddio meddyginiaethau newydd. Rydym yn cynrychioli cwmniau o bob maint sy'n buddsoddi mewn darganfod meddyginiaethau'r dyfodol. Mae ein haelodau'n cyflenwi triniaethau blaengar sy'n gwella ac yn achub bywydau miliynau o bobl. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth a'r GIG fel y gall cleifion gael triniaethau newydd yn gyflymach a gall y GIG gynllunio faint maent yn gwario ar feddyginiaethau. Bob dydd, rydym yn cydweithio â sefydliadau yn y gymuned gwyddorau bywyd a thu hwnt i drawsnewid bywydau pobl ledled y DU.

Mae meddyginiaethau yn trawsnewid ein bywydau fel erioed o'r blaen. Mae'r maniffesto hwn yn mynegi barn aelodau'r ABPI ar y ffyrdd orau o fanteisio ar ddiwydiant gwyddor bywyd y DU a gwella iechyd cleifion yn dilyn yr etholiad nesaf. Rydym yn canolbwyntio ar ddwy brif thema:

- Gwneud Cymru'r lle gorau yn y byd i gleifion elwa o feddyginiaethau a brechlynnau arloesol.
- Adeiladu amgylchedd ffyniannus ar gyfer darganfod meddyginiaeth, fel bod Cymru ar flaen y gad ym maes ymchwil a datblygu meddyginiaethau a brechlynnau newydd sy'n arwain y byd.







# Mynediad Cleifion i Feddyginiaethau

## Parhad y Gronfa Triniaeth Newydd yng Nghymru

- Croesawodd yr ABPI ymrwymiad Llywodraeth bresennol Cymru i gryfhau a chyflymu mynediad cleifion at y meddyginiaethau diweddaraf. Mae'r Gronfa Triniaeth Newydd, gwerth £80 miliwn, yn galluogi'r GIG i fabwysiadu meddyginiaethau clinigol a chost-effeithiol yn gyson, ac yn sail i ddull newydd, cydweithredol o asesu'r hyn sydd ar y gorwel o ran meddyginiaethau arloesol.
- Wrth inni edrych ymlaen y tu hwnt i 2021, mae'r ABPI yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i gynnal a datblygu polisi'r Gronfa Driniaeth Newydd. Mae'r ABPI o'r farn bod y polisi hwn wedi bod o fudd i gleifion ar hyd a lled Cymru trwy sicrhau mynediad cyflymach at feddyginiaethau sy'n gost a glinigol effeithlon a sicrhau bod yna gronfa priodol i adlewyrchu anghenion cleifion a gwasanaethau, yn seiliedig ar gyngor NICE / AWMSG ac asesu'r hyn sydd ar y gorwel.

**Mae ABPI Cymru Wales yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i barhau a chysoni'r Gronfa Triniaeth Newydd arloesol sy'n torri tir newydd.**

## Cefnogi cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, a diwydiant

- Mae'r ABPI yn cefnogi nod cynllun tymor hir "Cymru Iachach - ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol" GIG Cymru i greu gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol, sy'n gallu cofleidio arloesedd, gwella iechyd a lles y boblogaeth a darparu safonau gofal o'r radd flaenaf.
- Er ei bod yn hanfodol i sefydliadau'r GIG a phartneriaid diwydiant gydymffurfio â chanllawiau cyfreithiol a rheoliadol wrth weithio gyda'i gilydd, nid yw cydymffurfio ar ei ben ei hun yn sicrhau canlyniad llwyddiannus wrth weithio ar y cyd. Byddai annog pawb sy'n ymwneud â chydweithio i fabwysiadu pecyn cymorth Conffederasiwn GIG Cymru / ABPI Cymru Wales yn helpu i hwyluso dull cyson a theg o ymdrin â'r prosiectau hyn.

**Mae ABPI Cymru Wales yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y diwydiant fferyllol, i elwa ar y manteision clir i gleifion a'r system iechyd sy'n deillio o weithio ar y cyd.**

## Newidiadau i'r AWMSG a NICE

- Ym mis Ionawr 2019, cyflwynwyd y Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Prisio a Mynediad at Feddyginiaethau Brand (VPAS) ledled y DU, gan ddisodli'r Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol (PPRS). Ochr yn ochr â'r cytundeb newydd hwn, mae yna ymrwymiad y bydd NICE yn cynyddu ei gymhwysedd i werthuso'r holl sylweddau actif newydd a gwneud estyniadau sylweddol i awdurdodiadau marchnata. Mae NICE wedi ymrwymo i gyflawni hyn erbyn Ebrill 2020, sydd â goblygiadau i rôl yr AWMSG yn y dyfodol.

**Mae ABPI Cymru Wales yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i gylch gwaith neu brosesau AWMSG neu NICE yn anfanteisio mynediad cleifion at feddyginiaethau clinigol a chost-effeithiol.**

## Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Ddata a Gwerthoedd

- Mae'r gallu i olrhain ac optimeiddio canlyniadau a gofal cleifion yn hanfodol i sicrhau system gofal iechyd cynaliadwy, arloesol yng Nghymru. Dim ond trwy fuddsoddi mewn cynhyrchu tystiolaeth amserol, gywir sy'n seiliedig ar ddata o'r byd go iawn y gellir cyflawni hyn, er mwyn cefnogi gweithwyr proffesiynol a chleifion i gyd-gynhyrchu gofal iechyd ac annog GIG fwy arloesol sy'n barod am ymchwil.

**Mae ABPI Cymru Wales yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru adeiladu ar y Strategaeth Ddigidol a'r Adnodd Data Cenedlaethol presennol er mwyn sicrhau bod gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd yn dod yn egwyddor ganolog i'r GIG a bod cleifion yn derbyn y canlyniadau gorau posibl.**

# Datblygu meddyginiaethau a brechlynnau newydd

## Cefnogi datblygu a chyflwyno technolegau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys therapïau uwch

- Yn 2018-19, denodd Cymru 212 o astudiaethau a noddir yn fasnachol. Ochr yn ochr ag annog y boblogaeth i ddod yn gyfranogwyr mewn astudiaethau ymchwil o ansawdd uchel, gallai'r cydweithrediadau hyn gefnogi datblygiad system iechyd arloesol, blaengar.
- Bydd gwireddu'r cyfle a gyflwynir gan arloesi biofeddygol yn dibynnu ar gydweithredu mwy effeithiol rhwng GIG Cymru, gwyddorau bywyd a rhanddeiliaid diwydiant er mwyn fynd i'r afael ag anghenion iechyd, paratoi ar gyfer datblygiadau newydd mawr fel Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch (ATMPs), a datblygu asedau data iechyd integredig sy'n caniatáu cynllunio ar sail canlyniadau. Bydd llwyddiant yn deillio o ddangos gallu meddyginiaethau a thechnolegau arloesol i wella iechyd pobl mewn lleoliadau byd go iawn a thrwy raddio'r gwelliannau hyn yn genedlaethol. Canlyniad y gwaith hwn fydd cynhyrchiad cylch rhinweddol sy'n sicrhau buddion iechyd ac economaidd i Gymru o ecosystem gwyddorau bywyd ffyniannus.
- Mae cadwyni cyflenwi a llwybrau triniaeth wedi'u hen sefydlu ar gyfer meddyginiaethau moleciwl bach traddodiadol, ond bydd ATMPs yn gofyn am ddylunio, datblygu a gweithredu systemau a llwybrau newydd. Mae hyn yn cynnwys y triniaethau eu hunain, yn ogystal â chyfleusterau gweithgynhyrchu, systemau TG, datrysiadau logisteg, gwasanaethau cymorth a diagnosteg cydymaith.

**Mae ABPI Cymru Wales yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddod â rhanddeiliaid diwydiant a GIG Cymru ynghyd i ddatblygu fframwaith mabwysiadu neu weithredu ar gyfer arloesiadau allweddol. Dylai'r fframwaith dargedu cynnydd blynyddol yn nifer y cydweithrediadau a'r astudiaethau a noddir yn fasnachol a ddenir i Gymru, a nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol mewn ymchwil.**

# Blaenoriaethu cleifion a diogelwch iechyd yn y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

## Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gefnogi adeiladu partneriaeth newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd sy'n rhoi cleifion yn gyntaf ac yn caniatáu i Gymru arwain y byd wrth ddarparu triniaethau newydd ac arloesol. Dylai:

- Ddiogelu cyflenwad meddyginiaethau ar gyfer cleifion o Gymru yn ystod ac ar ôl y Cyfnod Pontio.
- Sicrhau bod meddyginiaethau a ddefnyddir i drin cleifion o Gymru yn cael eu hasesu a'u monitro gan y safonau rheoleiddio uchaf sy'n amddiffyn diogelwch cleifion.
- Annog arweinyddiaeth ym maes arloesi gwyddorau bywyd a chynyddu dylanwad rhyngwladol Cymru wrth lunio polisi gwyddorau bywyd.

**Mae ABPI Cymru Wales yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i flaenoriaethu iechyd a meddyginiaethau wrth i'r cyd-destun newydd ar gyfer cysylltiadau â'r UE ddatblygu.**

**Cysylltu:** ABPI Cymru Wales, 2 Pentir Caspian, Stryd Pierhead, Caerdydd CF10 4DQ
**T:** 029 2045 4297 **E:** wales@abpi.org.uk